OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 326

## Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Ffioedd) 2002

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Ffioedd) 2002 a deuant i rym ar 1 Mawrth 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru yn unig.

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Cofrestr" ("*Register*") yw'r gofrestr o athrawon ac athrawesau y mae'n ofynnol i'r Cyngor ei sefydlu a'i chadw yn unol ag adran 3 o'r Ddeddf a Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000 (**1**);

mae "cyflogydd" ("*employer*") mewn perthynas ag athro neu athrawes yn cynnwys person sy'n cymryd yr athro neu'r athrawes ymlaen neu sy'n gwneud trefniadau iddynt gael eu cymryd ymlaen i ddarparu gwasanaethau fel athro neu athrawes heblaw o dan gontract cyflogaeth, a dehonglir "cyflogi" a "cyflogaeth" yn unol â hynny;

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru;

ystyr "dyddiad hysbysu" ("*notification date*") yw'r dyddiad sy'n cael ei hysbysu i gyflogydd gan y Cyngor fel y dyddiad y daw'r ffi'n daladwy;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998;

ystyr "ffi" ("*fee*") yw unrhyw ffi sy'n daladwy yn rhinwedd adran 4(4) o'r Ddeddf.

**3.** Os gwenir cais am hynny, raid i gyflogydd hysbysu'r Cyngor ynglyn â'r manylion a bennir yn yr Atodlen am unrhyw athro neu athrawes a gyflogir gan y cyflogydd hwnnw ar ddyddiad a bennir gan y Cyngor ac y mae'n ofynnol, yn sgil eu cyflogaeth, iddynt gael eu cofrestru yn y Gofrestr yn rhinwedd rheoliadau a wnaed o dan adran 218(1)(aa) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988(**2**).

**4.**—(1) Rhaid i gyflogydd athro neu athrawes y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddynt sicrhau bod y ffi yn cael ei didynnu o'r taliad cyflog a wneir i'r athro neu'r athrawes yn union ar ôl y dyddiad hysbysu.

(2) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i athro neu athrawes y mae'r cyflogydd wedi cael hysbysiad ("hysbysiad talu") mewn perthynas â hwy oddi wrth y Cyngor ei bod yn ofynnol iddynt sicrhau bod y ffi'n cael ei didynnu o gyflog yr athro neu'r athrawes.

(3) Mae'n rhaid i hysbysiad talu nodi'r swm sydd i'w ddidynnu.

(4) Dim ond os yw'r Cyngor wedi'i fodloni bod yr athro neu'r athrawes y mae'r hysbysiad yn cael ei roi mewn perthynas â hwy ar y dyddiad hysbysu—

(a) wedi'u cofrestru ar y Gofrestr, neu

(b) ei bod yn ofynnol iddynt fod wedi'u cofrestru felly yn rhinwedd rheoliadau a wnaed o dan adran 218(1)(aa) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988,

(**1**) O.S. 2000/1941 (Cy. 139).

(**2**) 1988 p.40. Mewnosodwyd adran 218(1)(aa) gan adran 11 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Rheoliadau Athrawon (Cofrestru Gorfodol) (Cymru) 2000, O.S. 2000/3122 (Cy. 200) oedd y rheoliadau a oedd mewn grym adeg gwneud y rheoliadau hyn.

a'u bod heb dalu'r ffi eisoes mewn perthynas â'r cyfnod y mae'r ffi y cyfeirir ati ym mharagraff (1) yn gymwys iddo y gellir rhoi hysbysiad talu i gyflogydd.

**5.** O fewn 14 diwrnod ar ôl i'r ffi gael ei didynnu yn unol â rheoliad 4, rhaid i'r cyflogydd anfon y ffi honno i'r Cyngor.

**6.** Wrth anfon y ffi rhaid i'r cyflogydd hysbysu'r Cyngor ynglyn â'r manylion a bennir yn yr Atodlen am yr athro neu'r athrawes yr anfonir y ffi mewn perthynas â hwy.

**7.** Nid yw methiant gan unrhyw berson i gyflawni unrhyw ddyletswydd o fewn terfyn amser sydd wedi'i bennu yn y Rheoliadau hyn yn rhyddhau'r person hwnnw o'r ddyletswydd honno.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*John Marek*
13 Chwefror 2002 — Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.